Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**



Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

6 Gorffennaf 2020

Annwyl Dafydd,

**Arian ychwanegol Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant**

Hoffwn ymuno â chi i groesawu'r newyddion gan Lywodraeth y DU ei bod yn buddsoddi £1.57 biliwn mewn diwylliant. Gan ragweld penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd y £59 miliwn sy'n dod i Gymru yn cael ei wario, hoffwn gael sicrwydd gennych y bydd yr holl swm yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector diwylliannol. Gwyddom fod y sector hwn wedi dioddef colled drychinebus o ran incwm yn sgil cau lleoliadau dros nos. O ystyried y gallai ailddechrau gweithgarwch cyhoeddus fod rai misoedd i ffwrdd i lawer, bydd angen pob ceiniog i gefnogi'r celfyddydau, y diwydiannau creadigol, amgueddfeydd ac orielau.

Mae £59 miliwn yn swm sylweddol o arian, ond mae gryn dipyn yn llai na chyfran sy'n seiliedig ar boblogaeth o'r cyfanswm o £1.57 biliwn. A allech gadarnhau sut y pennwyd cyfran Cymru o'r cyfanswm cyllid hwn, ac a ydych yn fodlon ag ef?

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i effaith COVID-19 ar feysydd o fewn ei gylch gwaith, clywsom gan Gyngor Celfyddydau Cymru am faint y bygythiad i'n lleoliadau a'n hartistiaid. Dywedodd Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau, wrth y Pwyllgor sut yr oeddent wedi blaenoriaethu cyllid drwy gronfeydd sefydlogi a chydnerthedd y Cyngor, ond hyd yn oed wedyn, dim ond digon o gyllid tan fis Medi oedd ar gael i gefnogi'r sector. Rydym yn gobeithio y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

bydd yr arian ychwanegol hwn yn achubiaeth i'n lleoliadau diwylliannol er mwyn sicrhau y gallant oroesi'r storm nes y bydd cynulleidfaoedd yn gallu dychwelyd yn llawn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut y caiff y cyllid ychwanegol ei ddefnyddio i gefnogi lleoliadau celfyddydol a diwylliannol.

Clywsom hefyd fod bylchau mawr yn y gefnogaeth i'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Yn ein cyfarfod ar 12 Mai, dywedoch fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod gweithwyr llawrydd wedi'i chael yn anodd cael cymorth gan Gynllun Cymorth Incwm i’r Hunangyflogedig (SEIS) Llywodraeth y DU. Gwn eich bod yn rhannu fy mhryderon y dylai'r cynllun hwnnw a'r Cynllun Cadw Swyddi barhau y tu hwnt i fis Hydref eleni. Os caiff y cynlluniau hyn eu dirwyn i ben yn unol â'r amserlen bresennol, mae posibilrwydd y bydd nifer fawr o swyddi'n cael eu colli a chaledi economaidd sylweddol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector. A allwch gadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru, gyda'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yn cynllunio rhyw fath o gymhorthdal incwm i unigolion sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol?

Rydym yn prysur redeg allan o amser os ydym am sefydlogi a chynnal ein talent a'n seilwaith artistig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cyllid ychwanegol i sicrhau nad yw ein sefydliadau celfyddydol yn gorfod cau eu drysau neu ddiswyddo aelodau staff gwerthfawr.

Yn olaf, mae eich ymrwymiad personol i ddiwylliant a'r celfyddydau yn hysbys iawn. Gobeithiaf, felly, y gallwn ddibynnu arnoch i sicrhau y bydd y buddsoddiad yn y seilwaith diwylliannol yn Lloegr yn cael ei adlewyrchu gyda phenderfyniad tebyg yma yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr arian sydd ar gael.

Yn gywir

Helen Mary Jones

Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

03 Awst 2020

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf parthed cyhoeddiad Llywodraeth y DU o becyn gwerth £1.57bn o gefnogaeth i'r sector diwylliant. Derbyniwyd £59m gan Lywodraeth Cymru.

Byddwch yn ymwybodol erbyn hyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cronfa gwerth £53m i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio ag effaith y pandemig coronafirws. Cyfanswm y pecyn cyllido yw £53m yn 2020-21 sy'n cynnwys cyllid refeniw o £50m a £3m cyfalaf.

Bwriad y gronfa yw darparu cefnogaeth hanfodol i theatrau, orielau, lleoliadau cerdd, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwasanaethau archif, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd i gyd wedi gweld colled refeniw dramatig oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi sefydliadau ac unigolion yn y sector.

Daw'r cyhoeddiad ar ben y pecyn portffolio £18m a ddarparwyd ym mis Ebrill, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru.

Rydym wedi gwrando a gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau diwylliannol a chreadigol i roi'r ail becyn cymorth hwn at ei gilydd.

Bydd y gronfa'n cael ei darparu ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru ac mae ganddi "gontract diwylliannol" yn ganolog iddi i helpu'r sector i ddod allan o'r pandemig yn gryfach nag erioed. Bydd y pecyn hwn yn helpu i gefnogi llawer yn y sectorau i ymateb i'r pwysau a'r heriau y mae coronafirws wedi'u gosod arnynt, mae hefyd yn gyfle unigryw i gyflawni newid sylweddol - byddwn yn datblygu contract diwylliannol fel y gall y sector ail-ymddangos yn gryfach. Byddai hyn yn sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn ymrwymo i sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio gyda phwrpas cymdeithasol cadarnhaol wedi'i dargedu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyhoeddir manylion pellach, gan gynnwys canllawiau i ymgeiswyr, yn ddiweddarach ym mis Awst.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism